

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Adran Achosion Brys, Ysbyty
Cyffredinol Llwynhelyg, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 21, 22 a 23 Awst 2023

Dyddiad cyhoeddi: 23 Tachwedd 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83577-151-8

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	20
4.	Y camau nesaf	25
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	26
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	27
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	37

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 21-23 Awst 2023.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 11 holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 34 gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#)

2. Crynodeb o'r arolygiad

Mae AGIC yn nodi bod y bwrdd iechyd wedi cyhoeddi digwyddiad mawr mewnol ar 15 Awst 2023 mewn perthynas â nodi Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC). Rydym yn cydnabod yr heriau sylweddol y mae hyn yn eu cyflwyno i'r Adran Achosion Brys am fod mwy na 100 o welyau ar wardiau sydd wedi cau ar safle ehangach yr ysbyty ac na all yr Adran Achosion Brys drosglwyddo cleifion i'r wardiau hyn sydd wedi cau. Achosodd hyn heriau sylweddol o ran gorlenwi yn ystod yr arolygiad hwn, a hynny ar ben y pwysau a oedd eisoes yn bodoli ar y safle hwn a phwysau ehangach y system.

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod, ar y cyfan, yn hapus ag agweddau ar eu profiad yn Adran Achosion Brys Ysbyty Llwynhelyg, gan gynnwys rhyngweithio caredig a pharchus y staff. Nododd y cleifion eu bod yn deall y pwysau sy'n wynebu'r Adran Achosion Brys, ond bod rhwystredigaeth mewn perthynas â'r diffyg preifatrwydd, urddas a gwybodaeth o ran pryd y byddai camau nesaf eu gofal yn digwydd.

Roedd cyfyngiadau sylweddol ar staff i sicrhau profiad ag urddas i'r cleifion, ond drwy ein hadolygiad o gofnodion cleifion, gwelsom fod y staff yn ymdrechu'n dda i sicrhau bod anghenion gofal sylfaenol yn cael eu diwallu. Roedd hyn yn cynnwys brysbennu cleifion yn amserol wrth iddynt gyrraedd yr Adran Achosion Brys. |

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ganolbwyntio ar anghenion preifatrwydd ac urddas y cleifion a'u hadolygu wrth i'r newidiadau i'r defnydd o ardaloedd ymchwydd gael eu cyflwyno
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dulliau cyfathrebu â chleifion mewn perthynas â'u gofal yn cael eu hatgyfnerthu
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o gyflenwad o glustogau a blancedi fel bod y cleifion yn gyfforddus. |

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom staff yn ymgysylltu â chleifion mewn ffordd garedig a pharchus bob amser
- Rhoddodd perthnasau adborth cadarnhaol mewn perthynas â'r gofal a ddarparwyd i'w hanwyliaid a oedd ar ddiwedd eu hoes. |

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y cleifion yn cael lefel ddiogel o ofal ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd y galw yn yr Adran Achosion Brys yn llawer uwch na'r gallu i'w ateb. Roedd hyn yn peri risg i gleifion ac yn cyflwyno heriau i staff o ran darparu lefel gyson o ofal i'r holl gleifion.

Gwnaethom nodi tri mater sicrwydd ar unwaith yr oedd angen i'r bwrdd iechyd gymryd camau amserol ar eu cyfer i ymateb i'r pryderon hyn.

Mae angen i'r gwasanaeth a'r bwrdd iechyd fonitro'r ffordd y caiff cleifion, yn enwedig mewn ardaloedd ymchwydd ac ardaloedd sydd newydd eu sefydlu, eu lleoli o fewn yr Adran Achosion Brys yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys yr angen i adolygu a mesur effeithiolrwydd y newidiadau hyn. |

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith

- Gwella prosesau atal a rheoli heintiau er mwyn lleihau'r risgiau i gleifion, staff ac ymwelwyr.
- Gwella'r broses o gynnal gwiriadau a'u cofnodi mewn perthynas â throlïau dadebru brys
- Gwella'r asesiadau risg, prosesau lliniaru a llywodraethu cyffredinol y defnydd o ardaloedd ymchwydd yn yr Adran Achosion Brys.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#). |

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau digonol ar waith i nodi, asesu risgiau ac amlygu unigolion sy'n agored i niwed neu'r rheini sy'n wynebu risg
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystafell asesu iechyd meddwl addas ar gael yn yr Adran Achosion Brys, ac y cynhelir asesiad risg cyn ei defnyddio
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system ar waith i dynnu sylw staff at y cleifion sydd angen cymorth wrth fwyta neu sydd ag unrhyw ofynion deietegol / alergeddau
- Dylai'r bwrdd iechyd fesur effeithiolrwydd y newidiadau arfaethedig i'r Adran Achosion Brys o ystyried yr heriau a nodwyd yn ystod yr arolygiad. |

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd proses frysbenno wedi'i chwblhau mewn modd amserol ar gyfer y mwyafrif o'r cleifion a adolygwyd gennym
- Gwnaethom nodi arferion cadarnhaol mewn perthynas â llwybrau penodol, gan gynnwys Gofal Brys ar yr Un Diwrnod ac, yn benodol, y gwasanaeth eiddilwch

- Gwnaethom arsylwi ar y ffaith bod llwybr gofal amserol, effeithiol ac urddasol yn cael ei roi ar waith ar gyfer cleifion diwedd oes. |

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwnaethom gadarnhau bod strwythur rheoli priodol ar waith yn yr adran a dangosodd arweinwyr clinigol lleol fod cynlluniau ar ddod gyda'r bwriad o atgyfnerthu agweddau ar yr Adran Achosion Brys mewn ymateb i'r pwysau a wynebir gan y gwasanaeth.

Gwelsom fod cynlluniau gweithlu wrthi'n cael eu hadolygu i gynyddu lefelau staffio, cymysgedd sgiliau a chydnerthedd cyffredinol yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae angen symud yn gyflym mewn perthynas â rhai swyddi er mwyn sicrhau bod rheolaeth ac arweinyddiaeth gadarn ar bob lefel o'r Adran Achosion Brys.

Argymhellir y dylai'r bwrdd iechyd fyfyrion ar yr holl adborth a roddwyd gan y staff yn yr adroddiad hwn, gan gymryd camau cadarn pan fo angen. |

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Argymhellir y dylai'r bwrdd iechyd atgyfnerthu'r broses o reoli ac arwain uwch-nyrsys yn yr Adran Achosion Brys (Uwch-brif Nyrs / Prif Nyrs)
- Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau dros dro cadarn ar waith i sefydlu a rhoi cymorth parhaus i staff newydd.
- Dylai'r bwrdd iechyd fyfyrion ar yr adborth llai cadarnhaol a gafwyd gan y staff er mwyn nodi a chymryd camau cadarn lle bo angen. |

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gweithlu ymrwymedig ymysg pob grŵp staff yn yr Adran Achosion Brys
- Dywedodd y mwyafrif o'r staff wrthym fod uwch-reolwyr yn weladwy. |

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â phum claf a'u perthnasau / gofalwyr a gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth. Cwblhawyd cyfanswm o 11 holiadur. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r staff yn ddi-fai. Maen nhw'n cael eu gorweithio ac yn gwneud gwaith gwych.

“Staff ardderchog yn gweithio mewn amgylchedd anodd iawn.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd

Gwelsom fod digon o wybodaeth hybu iechyd a chymorth iechyd wedi'i harddangos o amgylch yr adran. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau eraill, fel y rhai a ddarperir gan sefydliadau'r trydydd sector.

Nid oedd unrhyw bosteri Dim Smygu wedi'u harddangos ger mynedfa'r adran. |

Gofal urddasol a pharchus

Pan ofynnwyd a oedd y staff wedi eu trin ag urddas a pharch, roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi gwneud hynny [9/12]. Fodd bynnag, pan ofynnwyd i'r staff a oeddent yn teimlo bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal, llai ha hanner ohonynt oedd yn cytuno bod hynny'n digwydd [12/34].

Gwelsom staff yn ymgysylltu â chleifion mewn ffordd garedig a pharchus bob amser.

Roedd y staff yn gweithio'n galed i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal ag urddas a pharch. Ymysg yr enghreifftiau roedd siarad â'r cleifion yn dawel er mwyn osgoi cael eu clywed gan bobl eraill a sicrhau bod defnydd cyson o sgriniau neu lenni mewn ardaloedd ymchwydd yn yr adran.

Fodd bynnag, roedd cyfyngiadau sylweddol ar breifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd hyn oherwydd y nifer mawr o gleifion yn yr Adran Achosion Brys a'r prinder lle yn yr adran oherwydd diffyg llif yn yr ysbyty ehangach a'r bwrdd iechyd. Roedd y broblem RAAC wedi effeithio'n sylweddol ar lif y cleifion ar adeg yr arolygiad gan fod sawl ward wedi'u cau ar safle Ysbyty Llwynhelyg.

Gwnaethom arsylwi ar ddau glaf a oedd wedi'u rhoi mewn ciwbiclau a gynlluniwyd ar gyfer un claf, gydag un claf ar wely a'r llall mewn cadair orwedd. Roedd hyn yn cyfyngu'n sylweddol ar y preifatrwydd a oedd ar gael i'r cleifion pan oedd y staff yn siarad â nhw. Gwnaethom nodi hefyd, er bod yr Adran Achosion Brys yn gynnes iawn, nad oedd blancedi na chlustogau yn cael eu cynnig i'r cleifion hynny a oedd yn cysgu mewn cadeiriau dros nos.

Nid oedd golau naturiol yn y ciwbiclau ac ardaloedd ymchwydd eraill o'r adran am nad oedd ganddynt ffenestri. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r cleifion oedd ag amhariadau gwybyddol wybod pa adeg o'r dydd oedd hi pan oeddent yn yr Adran Achosion Brys am gyfnodau hir. Nododd sawl claf hefyd nad oeddent yn gallu cysgu oherwydd y sŵn yn yr adran, e.e. cyhoeddiadau dros yr uchelseinydd a'r ffaith eu bod yn agos at gleifion eraill.

Er nad oedd llawer ohonynt, roedd cyfleusterau toiledau a chawodydd ar gael yn agos at y cleifion a oedd wedi'u lleoli yn yr Adran Achosion Brys am gyfnodau hwy.

Arsylwyd ar sawl claf a oedd wedi bod yn eistedd yn yr adran am gyfnodau hir hefyd. Roedd rhai cleifion a oedd ar welyau wedi'u lleoli ar ochr yr orsaf staff cynllun agored, ond roedd sgriniau preifatrwydd wedi'u gosod ar gyfer y cleifion a oedd mewn gwelyau.

Fodd bynnag, roedd y staff wedi sicrhau bod lefelau preifatrwydd ac urddas yn cael eu cynnal ar y cyfan ar gyfer cleifion yn yr Adran Achosion Brys yn ardal dadebru ac anafiadau difrifol yr adran oherwydd eu haciwtedd a'r tebygolrwydd y byddent yn gwaethygu.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o gyflenwad o glustogau a blancedi fel bod y cleifion yn gyfforddus.

Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ganolbwyntio ar anghenion preifatrwydd ac urddas y cleifion a'u hadolygu wrth i'r newidiadau i'r defnydd o ardaloedd ymchwydd gael eu cyflwyno. |

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod y cleifion yn cael agweddau ar ofal amserol, ond ar y cyfan, nad oeddent bob amser yn cael gofal yn yr Adran Achosion Brys nac yn yr ysbyty ehangach mewn modd amserol. Roedd hyn oherwydd nifer y cleifion yn yr adran a diffyg llif yn yr ysbyty ehangach ac i safleoedd eraill.

Wrth gyrraedd yr Adran Achosion Brys ac yn y cofnodion cleifion a welsom, gwelsom fod proses frysbenno gychwynnol ar gyfer cleifion a oedd wedi dod eu hunain a'r rheini a oedd wedi cyrraedd mewn ambiwlans wedi'i chwblhau mewn modd amserol. Roedd yn gadarnhaol nodi, yn y mwyafrif o'r cofnodion hyn, fod proses frysbenno wedi'i chwblhau o fewn yr amserlen ofynnol.

Gwelsom enghreifftiau o gleifion sy'n wael neu'n gwaethygu yn cael eu gweld, eu huwch-gyfeirio a'u trin fel sy'n briodol.

Nododd rhai cleifion a staff nad oeddent yn cael neu nad oeddent yn gallu darparu agweddau ar ofal amserol i'r cleifion oherwydd nifer y cleifion yn yr adran a lefelau staffio annigonol. Ymysg yr enghreifftiau a welwyd roedd oedi cyn newid gorchuddion a oedd yn diferu, rhoi cymorth amserol i fwyta, ac oedi cyn mynd â'r cleifion i gael sganiau.

Nododd y cleifion eu bod yn anfodlon ar ba mor hir yr oedd agweddau ar eu gofal wedi'i gymryd, gan gynnwys trosglwyddo o'r Adran Achosion Brys i ward neu safle arall. Nid oedd y mwyafrif o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o pa bryd y byddai camau nesaf eu gofal yn digwydd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dulliau cyfathrebu â chleifion mewn perthynas â'u gofal yn cael eu hatgyfnerthu.

Er nad oedd yr Uned Achosion Gofal Brys ar yr Un Diwrnod wedi'i hadolygu'n fanwl fel rhan o'r arolygiad hwn, siaradodd y staff yn gadarnhaol am effeithiau'r Uned Achosion Gofal Brys ar yr un Diwrnod a'r Uned Mân Anafiadau ar helpu i gefnogi llif drwy'r Adran Achosion Brys.

Dywedodd y staff wrthym fod rhagor o heriau o ran darparu gofal amserol i gleifion mewn perthynas â throsglwyddo cleifion lle mae amser yn hollbwysig. Rhoddodd y staff enghreifftiau meddygol a llawfeddygol diweddar i ni. Fodd bynnag, ni allem ddod o hyd i'r digwyddiadau hyn yn y system rheoli digwyddiadau.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl achosion o oedi wrth drosglwyddo yn cael eu cofnodi fel sy'n ofynnol ac mewn modd amserol.

Clywsom am freguster staffio cyffredinol yn y gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol ar safle Llwynhelyg a gwnaethom nodi enghreifftiau o gleifion yr oedd

angen eu trosglwyddo o'r Adran Achosion Brys i ysbyty Bronglais i gael llawdriniaeth. Gwnaethom gadarnhau bod hyn ar y cofrestrau risg perthnasol a bod cynlluniau wrth gefn ar gael, gan gynnwys llwybr i reoli'r atgyfeiriadau hyn. Cynghorir y bwrdd iechyd y dylai barhau i liniaru a monitro'r risg hon mewn modd cadarn. |

Teg

Cyfathrebu ac iaith

|Nododd yr holl gleifion a ymatebodd i'r holiadur mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod arwyddion a deunydd dwyieithog ar gael yn yr adran i gefnogi'r cleifion Cymraeg eu hiaith. Roedd y staff yn ymwybodol o'r llinell iaith ar gyfer cleifion ag anghenion iaith eraill. |

Hawliau a Chydraddoldeb

|Cadarnhaodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw bod y gwasanaeth yn darparu gofal a thriniaeth nad yw'n gwahaniaethu i bob claf sy'n dod i'r Adran Achosion Brys. Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth sefydliadol ar waith, ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol y GIG ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Roedd ystafell ddigonol i berthnasau ar gael i ffwrdd oddi wrth y brif ffordd drwy'r adran. |

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd yr amgylchedd yn hygyrch i bob claf ac ymwelydd ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd cyfyngiadau sylweddol ar yr amgylchedd yn sgil y pwysau oherwydd gorlenwi am fod llif gwael, a oedd yn rhannol o ganlyniad i'r broblem RAAC a'r nifer mawr o gleifion yn yr Adran Achosion Brys. O ganlyniad i hyn, rodd ardaloedd ymchwydd yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r adran.

Roedd rheolwyr yr Adran Achosion Brys wedi ceisio lliniaru'r risg hon drwy greu parthau o ardaloedd yn seiliedig ar aciwtedd cleifion. Roedd yn ymddangos bod hyn yn gweithio'n fwy effeithiol ar gyfer cleifion aciwtedd uchel, gan gynnwys y rheini a oedd mewn ardaloedd dadebru ac anafiadau difrifol.

Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym fod adegau pan allai'r cleifion gael eu rhoi mewn ardaloedd dadebru am gyfnodau hir a bod ardaloedd eraill o'r Adran Achosion Brys a gynlluniwyd ar gyfer grwpiau penodol o gleifion neu swyddogaethau penodol wedi'u colli er mwyn rhoi cleifion a oedd yn aros i gael eu trosglwyddo i ward. Dywedodd nifer o staff meddygol wrthym hefyd nad oedd lle ar gael i adolygu cleifion.

Ar gyfer cleifion aciwtedd isel a oedd naill ai'n ddigon da i eistedd neu'n aros i gael eu trosglwyddo i ward neu safle arall, roedd y galw'n llawer uwch na'r gallu i'w fodloni. O ganlyniad, roedd ardaloedd ymchwydd yr adran yn cael eu defnyddio i roi cleifion mewn ardaloedd â seddi a gwelyau.

Er y gwnaed ymdrechion i reoli'r ardaloedd hyn mewn modd diogel, roedd y galw ar yr Adran Achosion Brys yn cyfyngu'n ddifrifol ar allu'r gwasanaeth i ymateb yn effeithiol. Er enghraifft, gwnaethom nodi prinder ocsigen a chlychau galw brys i'r holl gleifion a oedd wedi'u dyblu i fyny mewn ciwbiclau. Gwnaethom hefyd nodi'r angen i adolygu trefn cleifion a gwelyau un o'r ardaloedd ymchwydd oherwydd y risg i briefatrydd ac urddas y cleifion a gallu'r staff i ymateb mewn achosion brys.

Ar y cyfan, roedd angen i'r bwrdd iechyd ffurfioli ei brosesau asesu risg, lliniaru, llywodraethu ac uwchgyfeirio er mwyn rheoli'r cleifion yn yr ardaloedd hyn.

Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B.

Yn ystod yr arolygiad, clywsom am gynlluniau i ad-drefnu rhan o ôl troed yr Adran Achosion Brys maes o law a oedd yn cynnwys sefydlu uned gofal dydd a model asesu a thrin cyflym. Fel rhan o'r broses sicrwydd ar unwaith, gwnaethom nodi bod rhai o'r newidiadau hyn wedi'u rhoi ar waith.

Dylai'r bwrdd iechyd fesur effeithiolrwydd y newidiadau hyn o ystyried yr heriau a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

Clywsom y gloch alw frys yn cael ei seinio yn ystod yr arolygiad, ac ymatebodd pob aelod o'r staff o'r brif Adran Achosion Brys namyn un. Er bod hwn yn ymateb amserol, gadawyd nifer mawr o gleifion heb oruchwyliaeth am gyfnod byr.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ymateb y staff i glychau galw brys yn gymesur, gan sicrhau bod goruchwyliaeth ddigonol o bob ardal o hyd. |

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd nifer o fesurau ar waith a gynlluniwyd i sicrhau y cedwir at arferion rheoli ac atal heintiau. Roedd hyn yn cynnwys cyfres o bolisiau a phrosesau sy'n gysylltiedig ag atal a rheoli heintiau i arwain staff, ac i sicrhau cydymffurfiaeth dda â hyfforddiant gorfodol i staff. Roedd nyrs arwain ar gyfer atal a rheoli heintiau yn yr Adran Achosion Brys ac roedd mewnbwn ar gael i'r adran gan nyrs atal a rheoli heintiau gorfforaethol. Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau rheolaidd dan arweiniad nyrsys, a oedd yn bwydo i gyfarfodydd ansawdd a diogelwch ledled y safle. Gwnaethom hefyd arsylwi ar y staff cadw tŷ yn gweithio'n galed i gynnal amgylchedd glân.

Fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd bod y mesurau hyn yn gwbl effeithiol oherwydd graddau'r materion a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Rydym yn cydnabod bod gorlenwi yn yr adran yn rhoi pwysau sylweddol ar staff a'r gallu i gynnal amgylchedd sy'n addas ar gyfer arferion atal a rheoli heintiau effeithiol. Fodd bynnag, roedd angen cymryd camau amserol er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o risgiau o ran heintiau i staff, cleifion ac ymwelwyr.

Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B.

Pan ofynnwyd a oeddent o'r farn bod mesurau atal a rheoli heintiau da yn cael eu dilyn yn llawn neu'n rhannol, roedd llai na hanner y cleifion yn cytuno. Yn yr un modd, roedd hanner y staff yn anghytuno bod yr amgylchedd yn eu galluogi i lanhau yn effeithiol. |

Diogelu plant ac oedolion

Roedd prosesau ar waith i'r staff eu dilyn pan fyddai pryderon ynghylch diogelwch ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelwch a phynciau cysylltiedig, gan gynnwys Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Gwnaethom holi'r staff pa systemau a oedd ar waith i nodi oedolion neu blant a oedd yn wynebu risg. Cadarnhaodd y staff nad oedd proses ffurfiol ar waith i nodi unigolion a bod hyn yn seiliedig ar farn glinigol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau digonol ar waith i nodi, asesu risgiau ac amlygu unigolion sy'n agored i niwed neu'r rheini sy'n wynebu risg.

Gwelsom fod ystafell iechyd meddwl a oedd yn cael ei defnyddio'n gyson i roi cleifion eraill oherwydd y broblem gorlenwi yn yr adran. Cadarnhaodd y staff y byddai asesiad risg yn cael ei gynnal o'r cleifion ar sail unigol a bod cleifion yr ystyrir eu bod yn wynebu llai o risg yn cael eu rhoi yn yr ystafell deulu. Fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd y byddai hyn bob amser yn cael ei gyfyngu i gleifion risg isel. Roedd hyn yn peri risg oherwydd y diffyg mesurau arsylwi uniongyrchol yn yr ystafell hon a'r risgiau amgylcheddol yn yr ystafell ei hun.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystafell asesu iechyd meddwl addas ar gael yn yr Adran Achosion Brys, ac y cynhelir asesiad risg cyn ei defnyddio.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod gan yr adran ddigon o gyfarpar a dyfeisiau ar y cyfan i ddiwallu anghenion y cleifion. Roedd hyn yn cynnwys eitemau fel matresi lleddfu pwysau, comodau ac ati. Nodwyd un eithriad a oedd yn cynnwys diffyg gwely bariatrig i glaf oedd ag angen clinigol i gael un.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod anghenion bariatrig cleifion yn cael eu diwallu yn yr Adran Achosion Brys.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r broses i nodi cyfarpar diffygiol, gan gynnwys cymryd cyfarpar allan o gylchrediad.

Gwelsom sampl o gofnodion o'r gwiriadau a gynhaliwyd ar gyfarpar brys a oedd yn cael ei storio ar droliau dadebru yn yr Adran Achosion Brys. Gwnaethom nodi bylchau yn y cofnodion hyn ac ni chawsom sicrwydd bod gwiriadau cyson yn cael eu cynnal. Gwnaethom hefyd nodi gwasanaeth cynnal a chadw a oedd yn hwyr yn cael ei gynnal ar gyfer cyfarpar sugno a gedwir ar y troliau.

Gwelwyd troli dadebru oedd ag eitemau coll ac a oedd heb gofnod o wiriadau mewn ardal ymchwydd lle rhoddwyd pum claf a oedd yn oedolion. Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad a chymerwyd camau ar unwaith.

Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. |

Rheoli Meddyginiaethau

[Gwelsom fod agweddau ar reoli meddyginiaethau mewn perthynas â'u hasesu, eu rhagnodi, eu rhoi a'u hadolygu yn briodol ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom mai anaml yr oedd ocsigen yn cael ei ragnodi pan oedd yn cael ei ddefnyddio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ocsigen yn cael ei ragnodi fel sy'n briodol pan fydd ei angen.

Ym mhob un o'r cofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt ond un, roedd tystiolaeth o reoli poen, sgôr poen a champau gweithredu priodol lle'r oedd poen wedi'i nodi. Gwelsom nad oedd camau wedi'u cymryd ac nad oedd y broses o nodi sgôr poen yn gyfredol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y broses o reoli poen yn gyson i bob claf yn yr Adran Achosion Brys.

Gwnaethom edrych ar agweddau ar ddiogelwch cyffuriau a reolir a gwelsom fod cyffuriau a reolir yn cael eu storio, eu rhoi, a'u cofnodi'n briodol, a chadarnhaodd y staff fod mewnbwn da gan gydweithwyr yn y fferyllfa.

Gwelsom fod symiau o gyffuriau nas rheolir wedi'u storio ar ben cypyrddau yn yr ardal ddadebru. Cafodd y rhain eu symud yn ystod yr arolygiad i leoliad storio mwy addas.

Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod digon o le i storio meddyginiaeth yn yr adran.

Gwelsom fod rhai eitemau miniog wedi cael eu gwaredu mewn modd anghywir. Roedd blychau o feddyginiaethau yr oedd y dyddiad arnynt wedi mynd heibio hefyd ar gael yn yr olchfa ac yn yr Adran Achosion Brys a ddefnyddir gan griwiau ambiwlans. Er bod staff yr Adran Achosion Brys wedi cadarnhau mai cyfrifoldeb cydweithwyr ambiwlans yw'r ardal hon, rhaid i'r Adran Achosion Brys atgoffa cydweithwyr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru bod angen cadw'r ardal hon yn ddiogel.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr olchfa ac ardal yr Adran Achosion Brys sy'n cael ei defnyddio gan gydweithwyr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn glir o beryglon bob amser.

Gwnaethom nodi nad oedd nifer o gleifion yn gwisgo bandiau arddwrn adnabod cleifion yn yr adran pan ofynnir iddynt wneud hynny.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ganddo system effeithiol ar waith i sicrhau bod cleifion yn gwisgo bandiau arddwrn adnabod. |

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod yr Adran Achosion Brys a'r safle ehangach yn gweithio mewn modd cydlynol i helpu i roi gofal effeithiol i'r cleifion. Ymysg yr enghreifftiau roedd defnyddio'r Uned Achosion Gofal Brys ar yr Un Diwrnod a'r Uned Mân Anafiadau fel y nodir uchod a'r llwybr eiddilwch. Nodwyd y llwybr eiddilwch o ran y modd roedd yn cefnogi llif ac yn osgoi'r angen i ddefnyddio'r Adran Achosion Brys, ynghyd â lefel y mewnbwn clinigol a roddwyd ganddi i gleifion hŷn o ran cefnogi'r broses o'u rhyddhau'n ddiogel ac amserol.

O ran gofal diwedd oes, gwnaethom arsylwi ar glaf a roddwyd ar lwybr gofal diwedd oes yn ystod yr arolygiad. Gwnaethom edrych ar ei nodiadau a gwelwyd bod y claf hwn yn cael lefel dda o ofal gan y timau meddygol a'r timau nyrsio. Dechreuwyd y llwybr gofal mewn modd amserol, gan gynnwys rhagnodi a rhoi meddyginiaethau yn ôl y gofyn. Rhoddodd perthnasau'r claf adborth cadarnhaol i'r tîm arolygu ynghylch y gofal a roddwyd i'r aelod o'i deulu.

Roedd nifer mawr o gwympiadau ac achosion o friwiau pwyso wedi'u nodi yn yr adran. Er bod y cofnodion a welsom yn dangos bod prosesau'r nyrsys o asesu a monitro'r cleifion a oedd yn wynebu risg o friwiau pwyso neu gwympiadau yn foddhaol ar y cyfan, cofnodwyd nifer o ddigwyddiadau y gellid eu hosgoi.

Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol nodi bod digwyddiadau'n cael eu hadolygu mewn cyfarfodydd panel craffu penodol a bod hyn yn gysylltiedig ag egwyddorion Dyletswydd Gonestrwydd lle achoswyd niwed i'r cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod camau parhaus yn cael eu cymryd mewn ymateb i nifer y cwympiadau ac achosion o friwiau pwyso. |

Maeth a hydradu

Ar y cyfan, roedd darpariaeth ddigonol o faeth a hydradiad ar gael ar yr adran. Fodd bynnag, gwnaethom nodi sawl achos lle'r oedd anghysondebau o ran y bwyd a gynigiwyd a diffyg mynediad i jygiau dŵr wedi'u hail-lenwi.

Dywedodd y staff wrthym fod cynorthwyr gofal iechyd a staff domestig yn rhoi cymorth i ddosbarthu bwyd / diod ac i sicrhau bod anghenion cleifion yn cael eu

diwallu. Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau o'r staff fod colli gwasanaethau'r Groes Goch yn golled amlwg o ran cymorth i'r Adran Achosion Brys.

Gwelsom fod anghenion maeth a hydradu yn cael eu hasesu'n briodol gan ddefnyddio dull sgrinio Cymru gyfan. Lle y bo'n briodol, roedd mewnbwn ac allbwn maeth a hydradu'n cael eu monitro.

Er hyn, gwnaethom arsylwi ar un claf oedd â chanser oesoffagaidd yr oedd angen deiet meddalach arno ond a oedd wedi cael pryd o fwyd cyffredin. Gwnaethom adolygu'r system a oedd ar waith i'r staff allu nodi cleifion yr oedd angen cymorth arnynt i fwyta neu yr oedd ganddynt ofynion deietegol / alergeddau. Fodd bynnag, nid oedd dangosyddion amlwg ar ddrysau nac uwchlaw gwelyau i nodi hyn i'r staff.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system ar waith i'r staff allu nodi cleifion yr oedd angen cymorth arnynt i fwyta neu sydd ag unrhyw ofynion deietegol / alergeddau.

Cofnodion y cleifion

Gwnaethom olrhain taith chwe chlaf drwy'r Adran Achosion Brys. Roedd hyn yn cynnwys trawstoriad o gleifion a oedd wedi dod i'r Adran Achosion Brys, gan gynnwys cleifion agored i niwed a chymhleth.

Gwelsom fod ansawdd nodiadau'r cleifion yn dda. Mae'r ddogfennaeth nyrsio yn glir ac yn hawdd i'w darllen ac ar y cyfan, roedd asesiadau yn cael eu cwblhau ac roedd unrhyw gamau gweithredu gofynnol yn cael eu rhoi ar waith yn ôl y gofyn. Roedd tystiolaeth o gynnal rowndiau bwriadol amserol, a gofnodwyd fel sy'n briodol.

Lle rydym wedi nodi bod angen atgyfnerthu nifer bach o feysydd, mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr adran berthnasol o'r adroddiad.

Effeithlon

Effeithlon

Er bod angen gwella agweddau ar ofal amserol, roedd y staff yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth mor amserol â phosibl i gleifion. Roedd lefelau atgyfeirio uchel yn yr Adran Achosion Brys drwy gydol yr arolygiad, ar ben y digwyddiad critigol a gyhoeddwyd ledled y safle ar 15 Awst.

Mewn ymateb i'r broblem RAAC, gwelsom fod cynnydd sylweddol ac amserol wedi'i wneud i adleoli a sefydlu nifer o ardaloedd ward newydd yn yr ysbyty ac ar safleoedd cyfagos.

Gwelsom fod nifer o gyfarfodydd ysbyty cyfan yn cael eu cynnal drwy gydol y dydd er mwyn helpu i gefnogi llif ac uwchgyfeirio pryderon. Gwelsom fod presenoldeb da yn y cyfarfodydd hyn a bod ffocws da iddynt. |

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Rhoddodd y staff amrywiaeth o adborth, a oedd yn cynnwys nifer o safbwyntiau cadarnhaol ac fel arall am y gofal a roddwyd i gleifion mewn perthynas ag amgylchedd yr Adran Achosion Brys, preifatrwydd ac urddas y cleifion, a'r lefelau staffio.

Dywedodd dros hanner y staff wrthym eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir ganddynt i'r cleifion [21/34]. Fodd bynnag, llai na hanner oedd yn cytuno y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarparwyd ar eu cyfer nhw eu hunain neu eu ffrindiau neu aelodau o'u teulu [15/34], gyda'r un gyfran o'r staff yn nodi nad oeddent yn fodlon ar ymdrechion eu hysbyty i'w cadw nhw a'r cleifion yn ddiogel [17/34].

O ran y gweithle, roedd yn gadarnhaol nodi bod dwy ran o dair o'r staff yn argymhell eu gwasanaeth fel lle i weithio [23/34]. Fodd bynnag, dywedodd hanner y staff wrthym fod eu swydd yn cael effaith andwyol ar eu hiechyd [18/34] ac roedd nifer tebyg o'r staff o'r farn nad yw eu sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol mewn perthynas â'u hiechyd a'u llesiant [17/34]. Er hyn, roedd mwy na dwy ran o dair o'r staff yn cytuno bod eu patrwm gweithio / oddi ar ddyletswydd yn sicrhau cydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd [26/34] ac roedd pob aelod o'r staff namyn un yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol a oedd ar gael [33/34].

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Rwy'n mwynhau gweithio yn y lleoliad hwn yn fawr. Gwaith tîm da a diwylliant agored a gonest. Diogelwch seicolegol yn cael ei arfer. Mae'r gofal cleifion o safon ardderchog hyd yn oed pan fydd yr adran yn llawn. Nid yw rheolwyr ysbytai yn cydnabod y pwysau ac maent yn parhau i ddibynnu ar yr Adran Achosion Brys i ryddhau cleifion yn hytrach nag edrych ar y drws cefn.”

“...Staff llawn ysgogiad, cymhelliant ac angerdd sydd am gael y gorau i'w cleifion. Roedd y gorlenwi sylweddol a mynych yn yr Adran Achosion Brys yn effeithio arnynt ymhell cyn problem yr RAAC ac mae hyd yn oed yn waeth nawr...”

Cleifion yn yr ardal ddadebru am oriau a hyd yn oed diwrnodau yn aros am welyau sy'n atal y gwiriadau, y glanhau a'r hyfforddiant rheolaidd sydd eu hangen er mwyn bod yn barod i dderbyn y cleifion gwaelaf.

Ardaloedd clinigol a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer ardaloedd pediatreg, mân anafiadau neu ardaloedd aros yn cael eu defnyddio i roi cleifion sy'n aros am welyau.

Mae hyd yn oed ardaloedd storio yn cael eu defnyddio i roi cleifion. Mynediad annigonol i gyfleoedd i olchi dwylo, clychau galw, cyfarpar sugno ac ocsigen mewn ardaloedd sy'n cael ei defnyddio i roi cleifion.

“Mae'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys wedi gorfod dyblu i fyny mewn ystafelloedd lle na cheir cyfleusterau toiledau na chyflenwad ocsigen na chlychau galw brys i'r ddau glaf. Fodd bynnag, nid yw'r wardiau wedi'u cynllunio ar gyfer dyblu i fyny, sy'n achosi mwy o bwysau a straen ar Adran Achosion Brys sydd eisoes dan bwysau. Pam na ellir gofyn i'r wardiau ddyblu i fyny?..”

“Fel adran, rydym wrthi'n gorfod rheoli cleifion sy'n aros am gyfnodau hir fel rhan o ward ac rwy'n teimlo ein bod yn gwneud hyn yn dda ond bod cleifion yn dioddef am eu bod wedi'u dyblu i fyny mewn ystafelloedd, ac nid oes preifatrwydd/urddas iddynt.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses i fyfyrion ar adborth staff a roddir yn yr adroddiad hwn, gan sicrhau bod camau cadarn yn cael eu cymryd pan fo angen.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Gwnaethom gadarnhau bod strwythur rheoli priodol ar waith yn yr adran. Fodd bynnag, roedd angen atgyfnerthu prosesau rheoli ac arwain nyrsys yn yr Adran Achosion Brys, gan ddirprwyo dyletswyddau a chyfrifoldebau lle y bo'n briodol. Ar adeg yr arolygiad, roedd diffyg swyddi uwch-nyrsys wedi'u llenwi, er y dywedwyd wrthym fod cynlluniau gweithlu wrthi'n cael eu hadolygu.

Argymhellir y dylai'r bwrdd iechyd atgyfnerthu'r broses o reoli ac arwain uwch-nyrsys yn yr Adran Achosion Brys (Uwch-brif Nyrs / Prif Nyrs).

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y mwyafrif o'r staff o'r farn bod yr uwch-reolwyr yn weledol [28/34]. Fodd bynnag, roedd ychydig dros hanner y staff o'r farn bod y cyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a staff yn effeithiol [18/34].

Pan ofynnwyd i'r staff a allent ddibynnu ar eu rheolwr uniongyrchol i'w helpu gyda thasg anodd, ac a oeddent yn cael adborth clir ar eu gwaith, roedd eu tri chwarter yn cytuno [25/34] a [24/34]. Roedd ychydig yn llai yn cytuno bod eu rheolwr uniongyrchol yn gofyn eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith [21/34].

Drwy gydol yr arolygiad, roedd y rheolwyr a'r staff ar gael, yn agored ac yn barod i ymgysylltu â'r tîm arolygu. |

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Gwelsom weithlu ymrwymedig ymysg pob grŵp staff yn yr Adran Achosion Brys. Fodd bynnag, roedd ymdeimlad clir o rwystredigaeth ymysg y staff am na allent ddarparu'r lefel o ofal yr hoffent ei ddarparu oherwydd y pwysau sylweddol ar yr adran.

Roedd y sefyllfa staffio yn anwadal ar adeg yr arolygiad oherwydd aelodau'r cleifion yn yr adran o ganlyniad i lif gwael a'r broblem RAAC. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio staff asiantaeth a staff a adleoliwyd o ardaloedd eraill o'r ysbyty. Er hyn, dywedodd hanner y staff wrthym nad oedd digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn briodol.

Gwnaethom nodi 11 o swyddi gwag band 5 yn yr Adran Achosion Brys, ond gwnaethom nodi y byddai rhai o'r swyddi hyn yn cael eu llenwi o fewn mis i ddyddiad yr arolygiad.

Gwnaethom gadarnhau bod proses sefydlu ar waith i gefnogi staff newydd a dywedwyd wrthym y byddai staff newydd yn cael eu dyrannu i weithio gydag aelod profiadol o'r staff er mwyn cefnogi eu proses ymgyswddo a sefydlu yn yr Adran Achosion Brys. Fodd bynnag, oherwydd y pwysau ar yr Adran Achosion Brys ac ar staff presennol, gan gynnwys y risg o oedi cyn penodi nyrs datblygu ymarfer ac uwch-nyrsys, dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau dros dro cadarn ar gyfer sefydlu a rhoi cymorth parhaus i staff newydd.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau dros dro cadarn ar waith i sefydlu a rhoi cymorth parhaus i staff newydd.

Heblaw am ddau fis, roedd y cyfraddau salwch yn yr Adran Achosion Brys yn uchel o hyd dros y 12 mis diwethaf, sef 8.2 y cant. Gwnaethom gadarnhau bod prosesau perthnasol ar waith i adolygu hyn yn rheolaidd.

Gwnaethom adolygu cofnodion hyfforddiant a gwelsom gyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol cyffredinol o 80% ar gyfer y staff nyrsio a'r staff meddygol.

Roedd tri chwarter y staff yn cytuno eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl [25/34]. Roedd gweddill y staff yn cytuno'n rhannol. Pan ofynnwyd pa hyfforddiant arall fyddai'n ddefnyddiol, roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Pediatrieg”

“Trawma”

“ECG a phrofion gwaed”

“Llwybrau clinigol i ailgyfeirio cleifion oddi wrth yr Adran Achosion Brys, sut i ddefnyddio Datix, derbyn cofnodion meddygon teulu a gweld manylion am ymweliadau blaenorol cleifion.”

Gwnaethom gadarnhau bod arfarniadau blynyddol ar y trywydd cywir i gael eu cwblhau gyda chyfradd cwblhau o 78% ar adeg yr arolygiad. |

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd cyfleoedd wedi'u harddangos i gleifion roi adborth drwy brosesau lleol, gan gynnwys enwau a manylion cyswllt ar gyfer uwch-staff nyrsio. Roedd posteri a oedd yn cynnwys manylion am sut i wneud hyn wedi'u harddangos yn yr ardal aros ac yn y brif adran. Fodd bynnag, roedd prin oedd y deunydd a oedd i'w weld yn rhwydd yn ymwneud â phrosesau adborth ffurfiol, gan gynnwys Gweithio i Wella.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod dulliau ffurfiol i roi adborth, fel Gweithio i Wella, yn cael eu harddangos yn amlwg yn yr adran.

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cael cryn dipyn o ganmoliaeth. Roedd hyn yn cynnwys sylwadau yn diolch i'r staff am y gofal a'r driniaeth a roddwyd.

Lle cafwyd adborth llai cadarnhaol neu gwynion ffurfiol, roedd prosesau ar waith i adolygu a monitro'r rhain ac ymateb iddynt. Fodd bynnag, gwnaethom nodi cyfran uchel o gwynion a oedd wedi mynd heibio'r amserlenni sefydledig hyn.

Gwnaethom nodi bod adborth gan gleifion yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd ansawdd a diogelwch ar lefel cyfarwyddiaeth, sy'n cynnwys rheoli'r Adran Achosion Brys. Fodd bynnag, dywedodd tri chwarter y staff wrthym nad oeddent yn cael diweddariadau ynghylch adborth gan gleifion.

Er hyn, gwelsom fod bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' wedi'i arddangos yn yr adran i ddangos sut roedd y gwasanaeth wedi ymateb i adborth gan gleifion. Dywedwyd wrthym hefyd fod grŵp profiad y claf wrthi'n cael ei sefydlu.

Rhaid i'r bwrdd iechyd atgyfnerthu ei broses cwynion am amseroedd ymateb yn unol â'r amserlenni sefydledig.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cael gwybod am adborth cleifion er mwyn helpu i ddysgu.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod y mwyafrif o'r staff yn cytuno bod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddiwyddiadau [31/34], a bod tri chwarter yn cytuno bod eu sefydliad yn trin staff sy'n rhoi gwybod am y rhain yn deg. [24/33]. Roedd mwy na thri chwarter yn cytuno bod y sefydliad yn cymryd camau i sicrhau nad yw'r digwyddiadau hyn yn digwydd eto ac y rhoddir adborth i'r staff [27/34].

Fodd bynnag, er bod mwy na dwy ran o dair o'r staff wedi nodi y byddent yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am arferion clinigol anniogel (23/33), nifer llai oedd yn hyderus yr eir i'r afael â'u pryderon (14/34).|

Gwybodaeth

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Y tu allan i'r archwiliadau nyrsio a gwblhawyd fel mater o drefn yn yr adran, gwelsom enghreifftiau o'r ffordd roedd yr Adran Achosion Brys a'r gwasanaeth ehangach yn ymgysylltu â phartneriaid cenedlaethol gan gynnwys gyda Gwelliant Cymru drwy'r Gydweithredfa Gofal Diogel. Roedd enghraifft ddiweddar yn cynnwys pecyn wedi'i dargedu o waith gyda'r nod o sicrhau gwelliant i gleifion sy'n gwaethygu yn seiliedig ar ddata ar ddiwyddiadau o'r gwasanaeth hwn.

Gwnaethom nodi bod gan y bwrdd iechyd yn fwy eang raglen trawsnewid barhaus ar gyfer gofal brys. |

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd symiau o gyffuriau nas rheolir wedi'u storio ar ben cypyrddau yn yr ardal ddadebru.	Mynediad anniogel	Gwnaethom roi gwybod i'r Uwch-Reolwr Nyrsio	Cafodd y rhain eu symud yn ystod yr arolygiad i leoliad storio mwy addas. Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried a oes digon o le i storio meddyginiaeth yn yr adran.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg - Uned Achosion Brys

Dyddiad yr arolygiad: 21-23 Awst 2023

Yr hyn sydd angen ei wella

Safon/ Rheoliad

Camau gweithredu gan y gwasanaeth

Swyddog cyfrifol

Amserlen

Canfyddiadau

Yn ystod ein harolygiad, dros y cyfnod 21-23 Awst 2023, gwnaethom nodi nifer o faterion atal a rheoli heintiau yr oedd angen cael sicrwydd amserol ar eu cyfer gan y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod risgiau o heintiau i staff, cleifion ac ymwelwyr yn cael eu rheoli mewn modd cadarn, oherwydd maint y materion a nodwyd. Ymysg yr enghreifftiau o'r materion a nodwyd roedd:

- Gwelwyd aelod o'r staff yn cario padell wely wedi'i defnyddio o giwbicl y claf ar draws yr ardal anafiadau difrifol a'i wagio yn yr olchfa heb ddefnyddio unrhyw gyfarpar diogelu personol, e.e. menig neu ffedog
- Gwelsom nad oedd rhai aelodau o'r staff meddygol yn cydymffurfio â'r polisi o fod yn noeth o dan y penelin
- Roedd bin gwastraff clinigol yn yr olchfa yn cynnwys swm mawr o wastraff, ac nid oedd bag gwastraff clinigol wedi'i roi yn y bin
- Roedd diffyg labeli 'I am clean' yn cael eu defnyddio i nodi a oedd cyfarpar yn lân ai peidio a gwelwyd bod rhai clustogau cleifion yn cael eu storio ar y cyfarpar hwn
- Gwelwyd blychau offer miniog gydag eitemau yn hongian allan ohonynt, heb gael eu gwaredu'n briodol
- Nid oedd prosesau glanhau neu gadw tŷ yn cael eu galluogi mewn rhai ardaloedd o'r adran oherwydd natur orlawn yr ardaloedd hyn (e.e. yr ardal â gwelyau i gleifion yn yr hyn a elwir yn 'ystafell aros bediatrig' a phob ciwbicl)
- Roedd y cadeiriau yn y dderbynfa wedi'u hollti ac ni ellid eu glanhau'n effeithiol.

Yn nodedig, roedd y to yn gollwng yn yr ardal ddadebru, a oedd yn agos at wely claf a chyfarpar trydanol. Er bod y staff wedi ceisio gosod sgriniau a bwcedi er mwyn lliniaru'r broblem hon, mae angen cymryd camau amserol at ddibenion atal a rheoli heintiau.

<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod arferion atal a rheoli heintiau yn yr adran yn cael eu hatgyfnerthu a bod materion amgylcheddol yn cael eu huwchgyfeirio i sicrhau bod y risgiau i gleifion, staff ac ymwelwyr yn cael eu lliniaru 	<p>Safon - Diogel</p> <p>Atal a Rheoli Heintiau a dihalogi</p> <p>Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p>	<p>Posterï gwahanu gwastraff wedi'u harddangos yn yr ardaloedd clinigol.</p> <p>Mater yn gysylltiedig â'r to/landar wedi'i unioni dros dro gan yr Adran Ystadau, ond angen rhagor o waith cynnal a chadw i'w ddatrys.</p> <p>Cyflwynwyd cadeiriau newydd yn ardal y dderbynfa yn lle'r hen rai er mwyn cyrraedd y safon ar gyfer atal a rheoli heintiau.</p> <p>Staff y dderbynfa i gynnal hapwiriadau bob nos i adolygu amgylchedd yr ystafell aros</p> <p>Archwiliad amgylcheddol llawn i gael ei gynnal gan y tîm atal a rheoli heintiau.</p>	<p>Rheolwr Cyfleusterau Meddal</p> <p>Pennaeth Gweithrediadau'r Safle</p> <p>Uwch-reolwr Nyrsio.</p> <p>Uwch-brif Nyrsys yr Adran Achosion Brys</p>	<p>Cwblhawyd 30/08/23</p> <p>I'w gwblhau erbyn 27/09/23</p> <p>Cwblhawyd 30/08/23</p> <p>Dechreuwyd 29 Awst 2023</p> <p>Wedi'i gwblhau 01/09/23</p>
---	---	--	---	---

<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu amllder archwiliadau, rowndiau a / neu weithgarwch hapwiriadau sy'n gysylltiedig ag atal a rheoli heintiau i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu rhoi ar waith a'u cynnal. 	<p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p>	<p>Ailadrodd archwiliadau Sicrhau Ansawdd.</p> <p>Canlyniadau i gael eu trafod mewn cyfarfodydd Safonau Iechyd a Gofal a chyfarfodydd adrannol.</p> <p>Dechrau archwiliadau hapwiriadau arsylwi wythnosol i gael eu cynnal gan Uwch-brif Nyrs yr Adran Achosion Brys am chwe wythnos i sicrhau cydymffurfiaeth.</p> <p>Posterï Noeth o dan y Penelin a Hylendid Dwylo i gael eu harddangos ym mhob ardal glinigol a'u darparu yn ardal wybodaeth yr adran.</p> <p>Memo i gael ei anfon i staff Meddygol a'i arddangos i hyrwyddo safonau atal a rheoli heintiau wrth waredu gwastraff clinigol.</p>	<p>Ymarferydd Ymgynghorol, Atal a Rheoli Heintiau</p> <p>Pennaeth Nyrsio, Atal a Rheoli Heintiau</p> <p>Ymarferydd Ymgynghorol, Atal a Rheoli Heintiau</p> <p>Uwch-brif Nyrsys yr Adran Achosion Brys</p> <p>Uwch-reolwr Nyrsio</p>	<p>I'w gwblhau yn yr wythnos sy'n dechrau 04/09/23</p> <p>Cyfarfod misol - i'w gyflwyno yn y cyfarfod Safonau Iechyd a Gofal ym mis Medi</p> <p>Dechreuwyd 30/08/23</p> <p>Cwblhawyd 30/08/23</p> <p>Wedi'i gwblhau 25/08/23</p>
--	--	---	---	--

	<p>Cyfarfod Uwch-brif Nyrs eithriadol a gynhaliwyd ar 29/08/23 i drafod Safonau atal a rheoli heintiau.</p> <p>Sefydlu hyfforddiant gloywi ar atal a rheoli heintiau yn yr adran ar gyfer staff meddygol, nyrsys a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd.</p> <p>Hapwiriadau dirybudd aml dros y 6 mis nesaf er mwyn sicrhau bod gwelliannau/safonau yn cael eu cynnal.</p> <p>Hyfforddiant atal a rheoli heintiau i gael ei flaenoriaethu â staff yr Adran Achosion Brys i gyflawni dros 85%</p> <p>Staff domestig ychwanegol yn cael eu defnyddio yn ystod y dydd/gyda'r nos er mwyn osgoi gorfod defnyddio staff i ddarparu maeth a hydradiad.</p> <p>Recriwtio i lenwi swyddi gwag staff domestig</p>	<p>Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol a Chyfarwyddwr yr Ysbyty</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Ymarferydd Ymgynghorol, Atal a Rheoli Heintiau</p> <p>Ymarferydd Ymgynghorol, Atal a Rheoli Heintiau</p> <p>SSR</p> <p>Uned Gwneud Penderfyniadau Llawfeddygol</p>	<p>Wedi'i gwblhau 29/08/23</p> <p>I'w roi ar waith erbyn 8 Hydref 2023</p> <p>Dechrau ar 1 Medi 2023</p> <p>Yr adran i gyflawni 85% erbyn diwedd mis Medi 2023</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Erbyn diwedd mis Tachwedd 2023</p>
--	---	--	--

		<p>Sicrhau bod archwiliadau cyfleusterau gwesty yn cael eu cynnal unwaith y mis, yng nghwmni uwch-brif nyrs.</p> <p>Darparu bagiau bin yn yr olchfa os oes angen</p> <p>Defnyddio tâp 'I'm clean' gwyrdd ar gyfer comodau sydd eisoes yn cael eu defnyddio, i gael eu hatgyfnerthu gan y defnydd o labeli 'I'm clean' a gaiff eu treialu.</p>	<p>Rheolwr Cyfleusterau Meddal</p> <p>Rheolwr Cyfleusterau Meddal</p> <p>Rheolwr Cyfleusterau Meddal</p> <p>Rheolwr Cyfleusterau Meddal</p> <p>Pennaeth Nyrsio, Atal a Rheoli Heintiau</p>	<p>Dechreuwyd 30/08/23</p> <p>Cwblhawyd 30/08/23</p> <p>Wedi'i gwblhau. Pan fydd y stoc yn cyrraedd ar 04/10/23</p>
--	--	---	--	---

Canfyddiadau

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion o'r gwiriadau a gynhaliwyd ar gyfarpar brys a oedd yn cael ei storio ar droliau dadebru yn yr Adran Achosion Brys. Gwnaethom nodi bylchau yn y cofnodion hyn ac ni chawsom sicrwydd bod gwiriadau cyson yn cael eu cynnal yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd i sicrhau bod y cyfarpar angenrheidiol ar gael ac yn addas i'w ddefnyddio yn achos argyfwng meddygol (llewygu).

Gwelwyd troli dadebru oedd ag eitemau coll ac a oedd heb gofnod o wiriadau hefyd yn yr ardal 'ystafell aros bediatrig' lle rhoddwyd pum claf a oedd yn oedolion. Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad a chymerwyd camau ar unwaith.

Gwnaethom hefyd nodi bod angen gwasanaethu'r cyfarpar sugno ar y troli dadebru, y dylai fod wedi'i wneud ym mis Mehefin 2023, a oedd yn cyflwyno risg i effeithiolrwydd y cyfarpar mewn achosion brys.

<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhoi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos bod gwiriadau dyddiol addas o gyfarpar brys wedi'u cynnal a bod hyn wedi'i gofnodi Sicrhau bod cyfarpar troli brys electronig (sugno) yn cael ei wasanaethu mor aml â'r hyn a oedd yn ofynnol 	<p>Safon - Diogel</p> <p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p> <p>Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p>	<p>Diweddarau'r rhestr wirio cyfarpar brys i gyrraedd y safon.</p> <p>Cynnal hapwiriadau arsylwol wythnosol am chwe wythnos i sicrhau bod yr Uwch-brif Nyrsys yn cydymffurfio bob diwrnod ag adborth drwy gyfarfod Safonau Iechyd a Gofal.</p> <p>Mae'r Adran Peirianeg Glinigol wedi cynnal gwiriadau gwasanaeth o'r holl gyfarpar ar y troli brys yn yr adran a bydd yn parhau i fonitro cyfarpar drwy</p>	<p>Uwch-reolwr Nyrsio</p> <p>Arweinydd Safle Peirianeg Glinigol</p>	<p>I'w gwblhau erbyn 13/10/23</p> <p>Wedi'i gwblhau 29/08/23</p>
--	---	--	---	--

<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu amllder archwiliadau / gweithgarwch hapwiriadau sy'n gysylltiedig â gwiriadau troli brys er mwyn sicrhau y caiff gwelliannau eu rhoi ar waith a'u cynnal. 	<p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p>	<p>waith Cynnal a Chadw Ataliol a Gynlluniwyd.</p> <p>Archwiliad gwasanaeth misol i gael ei gynnal erbyn yr 20fed o bob mis</p> <p>Gwiriadau i gael eu cynnal ar ddyddiadau gwasanaeth ar gyfer cyfarpar sugno ym mhob rhan o'r safle.</p> <p>Dechrau hapwiriadau dyddiol arsylwol i gael eu cynnal am chwe wythnos, gan leihau'r amllder wedi hynny yn unol â lefelau cydymffurfiaeth. Adborth ar ganfyddiadau drwy gyfarfodydd Ansawdd a Llywodraethu'r gyfarwyddiaeth a gynhelir bob deufis.</p>	<p>Uwch-brif Nyrsys yr Adran Achosion Brys</p> <p>Rheolwr Gwasanaeth yr Ysbyty</p> <p>Llywiwr a Chydlynnydd Adrannol</p>	<p>Wedi'i gwblhau - 30/08/23</p> <p>I'w gwblhau erbyn 04/09/23</p> <p>I'w gwblhau erbyn 13/10/23</p>
---	--	---	--	--

Canfyddiadau

Gwelsom fod cleifion wedi'u rhoi mewn nifer o ardaloedd ymchwydd amrywiol yn yr Adran Frys. Roedd hyn yn cynnwys cleifion mewn ardaloedd â seddi neu welyau yn yr adran, cleifion wedi'u 'dyblu i fyny' mewn un ciwbwicl ar wely a chadair orwedd a chleifion mewn ardaloedd llai lle na fwriadwyd rhoi cleifion fel mater o drefn oherwydd maint neu gynllun y gofod a ddefnyddir.

Er y gwnaed ymdrechion i reoli hyn mewn modd diogel ac effeithiol, gwnaethom nodi diffyg dull ffurfiol o weithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer asesu risg / lliniaru, llywodraethu, ac uwchgyfeirio mewn perthynas â rheoli cleifion yn yr ardaloedd hyn.

Roeddem yn poeni'n benodol am y gofod a ddefnyddir yn yr hyn a arferid ei alw'n ardal aros bediatrig, lle mae dau wely i gleifion sy'n oedolion wedi'u rhoi yn y ffordd drwodd a thri gwely i oedolion y tu mewn, am fod hyn yn risg i breifatrwydd ac urddas cleifion, ynghyd â gallu'r staff i ymateb i'r cleifion mewn argyfwng (meddygol).

Gwelsom fod diffyg dull addas i gleifion, pan oeddent wedi'u 'dyblu i fyny' mewn ciwbiclau, i alw ar staff am gymorth pan oedd angen gan mai dim ond dwy gloch alw (a chyfarpar arall) oedd yn yr holl giwbiclau a ddefnyddir.

Mae AGIC yn nodi bod y bwrdd iechyd wedi cyhoeddi digwyddiad mawr mewnol ar 15 Awst 2023. Rydym yn cydnabod yr heriau eithriadol y mae hyn yn eu cyflwyno i'r Adran Achosion Brys am fod mwy na 100 o welyau ar wardiau sydd wedi cau ar safle ehangach yr ysbyty ac na all yr Adran Achosion Brys drosglwyddo cleifion i'r wardiau hynny sydd wedi cau. Achosodd hyn heriau sylweddol o ran gorlenwi yn ystod yr arolygiad, a hynny ar ben pwysau a oedd eisoes yn bodoli ar y system.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:	Safon - Diogel	Gyda chysylltiadau â Swyddog Tân, Swyddog Iechyd a Diogelwch, Hyfforddiant Dadebru, Codi a Chario, mae'r gwaith Atal a Rheoli Risg yn arwain	Uwch-reolwr Nyrsio yr Adran Achosion Brys	I'w gwblhau erbyn 21/09/23 a'i gyflwyno i'r Grŵp Ansawdd a
--	----------------	--	---	--

<ul style="list-style-type: none"> Ffurfioli ei ddull o asesu risg / lliniaru, llywodraethu ac uwchgyfeirio er mwyn rheoli'r cleifion yn yr ardaloedd ymchwydd. Dylai hyn gynnwys asesiadau risg amgylcheddol ac o ran cyfarpar, sut yr ymatebir i sefyllfaoedd clinigol / ymchwydd, pryd y caiff sefyllfaoedd eu huwchgyfeirio ac unrhyw brosesau lliniaru, lle a sut y caiff staff eu dyrannu, a nifer y meini prawf clinigol ar gyfer lleoli cleifion mewn ardaloedd ymchwydd penodol. Adolygu'r defnydd o 'ardal aros bediatrig' yn ei gynllun ar gyfer cleifion / gwelyau. 	<p>Rheoli Risg a Hybu lechyd a Diogelwch</p> <p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p>	<p>at gefnogi asesiad amgylcheddol ar gyfer ardaloedd ymchwydd er mwyn cefnogi'r broses o liniaru risg sy'n gysylltiedig â galw ac aciwtedd.</p> <p>Cynllun i gael ei gyflwyno i'r gyfarwyddiaeth mewn cyfarfodydd Ansawdd a Llywodraethu bob deufis.</p> <p>Mae cyfleuster i gleifion mewnol wedi'u tynnu o'r ardal hon, mae'r ystafell bellach ar gyfer prosesau brysbennu ac</p>	<p>Arweinydd Clinigol ar gyfer Gofal Brys</p> <p>Uwch-reolwr Nyrsio yr Adran Achosion Brys</p>	<p>Llywodraethu ar 25/09/23</p> <p>Cynllun uwchgyfeirio DRAFFT yr Adran Achosion Brys wedi'i ymgorffori</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>
---	---	---	--	---

		ardal asesu a thrin cyflym, gyda'r cyfleuster i ffrydio gydag uwch-feddyg.	Arweinydd Clinigol ar gyfer Gofal Brys	
--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Adran Achosion Brys Llwynhelyg

Dyddiad yr arolygiad: 21-23 Awst 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Risg i urddas	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o gyflenwad o glustogau a blancedi fel bod y cleifion yn gyfforddus.	Cyfleusterau meddal gwestai i wella ansawdd blancedi a chlustogau a ddyrennir i'r adran.	Uwch-reolwr Cyfleusterau	Wedi'i gwblhau
		Stoc ychwanegol o glustogau wedi'u harchebu ac ar gael yn yr ystafell dillad gwely ganolog.	Uwch-reolwr Cyfleusterau	Wedi'i gwblhau
		Dylid sicrhau bod "ED pillow" wedi'i nodi'n glir ar y clustogau er mwyn gallu eu casglu a'u dychwelyd i'r adran.	Uwch-reolwr Cyfleusterau	31/11/23

		<p>Caiff gwybodaeth ei harddangos ar droli dillad gwely'r Adran Achosion Brys i atgoffa'r staff fod blancedi ychwanegol ar gael yn yr ystafell dillad gwely.</p> <p>Yr Uwch-reolwr Nyrso i adolygu ac archwilio'r camau gweithredu uchod bob mis</p>	<p>Uwch-reolwr Cyfleusterau</p> <p>Uwch-reolwr Nyrso</p>	<p>31/11/23</p> <p>31/11/23</p>
Risg i breifatrwydd ac urddas	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ganolbwyntio ar anghenion preifatrwydd ac urddas y cleifion a'u hadolygu wrth i'r newidiadau i'r defnydd o ardaloedd ymchwydd gael eu cyflwyno</p>	<p>Rheiliau llenni i gael eu codi mewn ardaloedd ciwbiclau lle mae angen "dyblu i fyny" er mwyn cefnogi'r galw am lif cleifion ymchwydd.</p> <p>Cynllun uwchgyfeirio mewnol yr Adran Achosion Brys o ran SBAR i gael ei gyflwyno i'r cyfarfod Llywodraethu gan gynnwys asesiad risg i nodi risgiau a phrosesau lliniaru a</p>	<p>Reolwr Cymorth Gweithrediadau Ystadau</p> <p>Jo Dyer, Uwch-reolwr Nyrso, yr Adran Achosion Brys</p>	<p>15/11/23</p> <p>31/10/23</p>

		<p>gynhelir i gefnogi ardaloedd ymchwydd.</p> <p>Mae ceisiadau cyfalaf wedi'u cyflwyno ar gyfer gwaith ystadau yn yr adran. Mae'r gofynion ar gyfer cyfleusterau cawodydd a thoiledau ychwanegol.</p> <p>Clychau galw i gael eu darparu mewn ardaloedd cadeiriau gorwedd er mwyn rhoi gwybod i staff bod angen cymorth.</p>	<p>Reolwr Cymorth Gweithrediadau Ystadau</p> <p>Reolwr Cymorth Gweithrediadau Ystadau</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>
Risg i brofiad y cleifion	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dulliau cyfathrebu â chleifion mewn perthynas â'u gofal yn cael eu hatgyfnerthu.	Rhestr wirio'r llywiwr i gael ei diweddarau i gynnwys rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cleifion yn yr ystafell aros am unrhyw achosion o oedi a fyddai'n effeithio ar y targed o 4-awr/eu hamser aros.	<p>Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys</p> <p>Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys</p>	<p>30/11/23</p> <p>30/10/23</p>

	<p>Memo i gael ei anfon at dîm y Llywiwr i gymryd cyfrifoldeb am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff y dderbynfa er mwyn iddynt ddiweddarau'r wybodaeth a gaiff ei harddangos o ran amseru.</p>	Uwch-brif Nyrs	30/12/23
	<p>Memo i gael ei anfon i dîm y Llywiwr i ddefnyddio'r system Uchelseinydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar ar gyfer achosion o oedi mewn amseroedd aros a gwiriadau diogelwch os bydd angen aros mwy na 4 awr.</p>	Uwch-brif Nyrs	30/10/23
	<p>Memo i gael ei anfon i atgoffa'r staff i gofnodi yn y dyddiadur er mwyn cynnal cofnod cyfathrebu â'r ardal aros a chynnal hapwiriadau wythnosol am 6 wythnos er mwyn monitro cydymffurfiaeth.</p>	Tîm Gwella Ansawdd/ Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys	31/01/24

		Cydweithio â'r Tîm Gwella Ansawdd i ddatblygu Pasbort yr Adran Achosion Brys, gan hysbysu cleifion am eu taith a rhoi gwybodaeth iddynt pan fyddant yn bresennol.		
Risg i ofal amserol / diogel	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl achosion o oedi wrth drosglwyddo yn cael eu cofnodi fel sy'n ofynnol ac mewn modd amserol.	<p>Caiff pob achos o oedi mewn perthynas â throsglwyddo gofal yn yr adran ar gerdyn CAS/cofnodion nyrsio. Llywiwr yr adran i uwchgyfeirio i Reolwr y Gwasanaethau Clinigol bob 4, 8 a 12 awr. Caiff hyn ei nodi a'i drafod yn y cyfarfod diogelwch gwely/safle am 8:30, 12:15 a 15:00. Hapwiriadau i gael eu cynnal gan yr Uwch-reolwr Nyrsio dros gyfnod o 6 wythnos er mwyn adolygu cydymffurfiaeth.</p> <p>Caiff achosion o oedi ac uwchgyfeirio i drosglwyddo oddi ar y safle eu nodi i Reolwr y Gwasanaethau Clinigol er mwyn eu</p>	<p>Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys</p> <p>Uwch-brif Nyrs</p>	<p>31/10/23</p> <p>30/10/23</p>

		<p>huwchgyfeirio i'r rheolwr pwynt cyswllt o fewn oriau ac i'r rheolwr oddi ar y safle y tu allan i oriau. Caiff hyn ei nodi yn y cyfarfod diogelwch safle hefyd</p> <p>Hapwiriadau arsylwi wythnosol i gael eu cynnal am chwe wythnos er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.</p>	Uwch-brif Nyrs	30/10/23
Risg i ofal diogel / llywodraethu	Cynghorir y dylai'r bwrdd iechyd fesur effeithiolrwydd y newidiadau arfaethedig i'r Adran Achosion Brys o ystyried yr heriau a nodwyd yn ystod yr arolygiad.		Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys	
Risg i ofal diogel	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ymateb y staff i glychau galw brys yn gymesur, gan sicrhau bod goruchwyliaeth ddigonol o bob ardal o hyd.	Memo i gael ei ddsbarthu i holl staff yr Adran Achosion Brys i roi cyngor ar y prosesau cywir ar gyfer ymateb brys cymesur drwy glychau galw.	Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys	Wedi'i gwblhau

		Ffurflen presenoldeb i gael ei llunio er mwyn sicrhau bod y staff priodol yn ymateb i alwadau brys.	Uwch-brif Nyrs	31/12/23
Risg i ofal diogel / effeithiol	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau digonol ar waith i nodi, asesu risgiau ac amlygu unigolion sy'n agored i niwed neu'r rheini sy'n wynebu risg.	<p>Dylai cleifion pediatrig sy'n dod i'r adran gael eu cyfeirio'n uniongyrchol i ardal aros bediatrig ar wahân.</p> <p>Yn ystod y broses frysbennu, cofnodi claf sy'n agored i niwed ar y cerdyn CAS a hysbysu'r nyrs â chyfrifoldeb. Bydd y nyrs â chyfrifoldeb yn adolygu ac yn asesu risg a chymryd camau gweithredu priodol.</p>	<p>Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys</p> <p>Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys</p> <p>Tîm Gwella Ansawdd / Uwch-reolwr Nyrsio, Adran Achosion Brys</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>30/11/23</p>

		Cydweithio â'r tîm Gwella Ansawdd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd PASG i nodi a thynnu sylw at grwpiau sy'n agored i niwed gan ddefnyddio symbolau magnetig.		31/12/23
Risg i ofal diogel / risg amgylcheddol	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystafell asesu iechyd meddwl addas ar gael yn yr Adran Achosion Brys, ac y cynhelir asesiad risg cyn ei defnyddio.	Clustnodi'r ystafell iechyd meddwl ddynodedig i gefnogi argaeledd amgylchedd rhydd o bwyntiau clymu addas fel rhan o SBAR. Asesiad o Risgiau Pwyntiau Clymu i gael ei gwblhau ar gyfer yr amgylchedd.	Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys	31/10/23 31/10/23
Risg i ofal diogel	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ocsigen yn cael ei ragnodi fel sy'n briodol pan fydd ei angen.	Cynnal archwiliad sylfaenol o ocsigen a ragnodwyd i'w gwblhau gan dîm anadlol yr Arbenigwr Nyrsio Clinigol i gefnogi gwelliannau y mae'n	Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau	Wedi'i gwblhau

		<p>ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gydymffurfio â nhw.</p> <p>Memo i atgoffa pob aelod o'r staff mai dim ond os caiff ocsigen ei ragnodi heb fod yn argyfwng y dylid ei roi.</p>	<p>Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys</p>	<p>30/11/23</p>
<p>Risg i ofal diogel</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y broses o reoli poen yn gyson i bob claf yn yr Adran Achosion Brys.</p>	<p>Memo i atgoffa staff i gwblhau asesiad poen adnodd brysbennu Manceinion.</p>	<p>Uwch-brif Nyrs</p>	<p>31/12/23</p>
		<p>Archwiliad sylfaenol ôl-weithredol i gael ei gwblhau i bennu cydymffurfiaeth â'r defnydd o asesiad poen adnodd brysbennu Manceinion.</p>	<p>Uwch-brif Nyrs</p>	<p>31/12/23</p>
		<p>Hapwiriadau i gael eu cwblhau bob wythnos am 6 wythnos er mwyn monitro cydymffurfiaeth</p>	<p>Uwch-brif Nyrs</p>	<p>31/03/24</p>

		Y tîm Gwella Ansawdd i gwblhau archwiliad asesiad risg o boen er mwyn monitro cydymffurfiaeth.	Tîm Gwella Ansawdd	31/12/23
		Ymgysylltu â chydweithwyr clinigol a'r tîm arbenigol i sicrhau bod asesiadau a phrosesau i ragnodi analgesia yn cael eu cynnal mewn modd amserol.	Meddyg Ymgynghorol Arweiniol yr Uned Achosion Brys	31/12/23
		Nodi'r nyrs cyswllt ar gyfer poen yn yr adran i weithredu fel pwynt adnodd.	Uwch-brif Nyrs	31/11/2023
Risg amgylcheddol	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr olchfa ac ardal yr Adran Achosion Brys sy'n cael ei defnyddio gan gydweithwyr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn glir o beryglon bob amser.	Cwblhau Cynllun Gweithredu Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru.	Rheolwr lleol Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn Sir Benfro	Wedi'i gwblhau
		Haparchwiliad amgylcheddol i gael ei gynnal dros gyfnod o 6	Uwch-brif Nyrs	31/12/23

		<p>wythnos i fonitro cydymffurfiaeth.</p> <p>Memo i atgoffa'r staff i beidio â gorlenwi'r blwch offer miniog a phoster i gael ei arddangos.</p>	Uwch-brif Nyrs	31/10/23
Risg i ofal diogel / rheoli meddyginiaethau	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ganddo system effeithiol ar waith i sicrhau bod cleifion yn gwisgo bandiau arddwrn adnabod.	<p>Cyfarfod adolygu safon gofal iechyd misol gydag Uwch-reolwyr Nyrsio a'r Pennaeth Nyrsio i sicrhau cydymffurfiaeth â'r nyrs frysbenneu i roi breichledi.</p>	Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys	Wedi'i gwblhau
		<p>Cyfarwyddyd i'r nyrs frysbenneu roi breichledi adnabod ar bob claf y mae angen meddyginiaethau neu ymchwiliadau arno.</p>	Uwch-brif Nyrs	31/12/23
		<p>Hapwiriadau dyddiol i gael eu cwblhau gan y Brif Nyrs am 6 wythnos i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau</p>	Uwch-brif Nyrs	31/12/23

<p>Risg i ofal diogel / effeithiol</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod camau parhaus yn cael eu cymryd mewn ymateb i nifer y cwympiadau ac achosion o friwiau pwyso.</p>	<p>Trefnu cyfarfodydd adolygu proses graffu ar gwympiadau a briwiau pwyso gydag Uwch-reolwyr Nyrsio i adolygu/cynnal camau gweithredu.</p> <p>Mae'r Tîm Gwella Ansawdd wedi cydweithio â thîm yr Adran Achosion Brys i arddangos data ar gwympiadau a briwiau pwyso i gael eu darllen gan holl staff yr Adran Achosion Brys</p>	<p>Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys</p> <p>Tîm Gwella Ansawdd</p>	<p>30/11/23</p> <p>30/11/23</p>
<p>Risg i ofal diogel</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system ar waith i dynnu sylw staff at y cleifion sydd angen cymorth wrth fwyta neu sydd ag unrhyw ofynion deietegol / alergeddau.</p>	<p>Pob claf sydd angen cymorth i fwyta ac yfed ac sydd â gofyniad o ran alergeddau i gael ei nodi gan hambwrdd coch ar y Bwrdd PASG.</p> <p>Atgoffa'r staff y dylid trafod gofynion o ran alergeddau â'r gwasanaethau gwesty wrth</p>	<p>Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys</p> <p>Uwch-brif Nyrs</p>	<p>31/12/23</p> <p>30/10/23</p>

	<p>bennu dewisiadau'r fwydlen ddyddiol.</p> <p>Nodir cydlynnydd amser prydau bwyd bellach ar bob shifft er mwyn cydlynu hyn.</p> <p>Cydweithio â'r tîm Gwella Ansawdd Y Bwrdd Hydradu ac Amser Prydau Bwyd i gael ei arddangos er mwyn gwella ymwybyddiaeth y staff.</p> <p>Treialu proses electronig symbiotix ar gyfer dewis bwydlenni yn yr adran. Disgwylir i'r peilot redeg o fis Tachwedd 2023 a chaiff ei werthuso ymhen 6 mis.</p>	<p>Uwch-brif Nyrs</p> <p>Tîm Gwella Ansawdd / Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys</p> <p>Uwch-reolwr Cyfleusterau</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>30/11/23</p> <p>30/01/24</p>
Risg y gweithlu	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn myfyrio ar yr adborth a roddwyd gan y staff sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn, gan sicrhau y caiff</p>	<p>Cyfarfodydd tîm adrannol misol i drafod camau</p>	<p>Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys</p> <p>30/03/24</p>

	camau cadarn eu cymryd pan fo angen.	gweithredu a gwblhawyd / ceisio safbwyntiau staff.		
Gweithlu - risg o ran rheolaeth ac arweinyddiaeth	Argymhellir y dylai'r bwrdd iechyd atgyfnerthu'r broses o reoli ac arwain uwch-nyrsys yn yr Adran Achosion Brys (Uwch-brif Nyrs / Prif Nyrs).	Rhoi sesiynau sefydlu adrannol i bob uwch-brif nyrs/nyrs â chyfrifoldeb newydd.	Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys	31/01/24
		Pob Uwch-brif Nyrs/Nyrs â Chyfrifoldeb i fynd ar gwrs STARS / cwrs Rheoli ac Arwain cydnabyddedig arall i feithrin gwybodaeth, sgiliau a datblygiad.	Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys	31/01/24
		Mae dwy Uwch-brif Nyrs ychwanegol wedi'u recriwtio i atgyfnerthu'r arweinyddiaeth yn yr adran.	Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys	31/11/23
		Cydweithio â Thîm Datblygu Arweinyddiaeth yr Adran Datblygu Sefydliadol i nodi cyrsiau arwain/cymorth addas	Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys	31/11/23

		gan yr uwch-brif nyrsys/nyrs â chyfrifoldeb.		
Risg y gweithlu	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau dros dro cadarn ar waith i sefydlu a rhoi cymorth parhaus i staff newydd.	Mae'r holl staff parhaol yn cael sesiynau sefydlu'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd.	Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau
		Cwblhau rhestr wirio Sefydlu staff y Bwrdd Iechyd ar gyfer staff nyrsio dros dro gyda gofynion ychwanegol yr Adran Achosion Brys.	Uwch-reolwr Nyrsio, yr Adran Achosion Brys	Wedi'i gwblhau
		Pob meddyg newydd i ddilyn rhaglen sefydlu'r Bwrdd Iechyd.	Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau ac Ymgynghorydd Clinigol Arweiniol yr Adran Achosion Brys	31/12/23
		Pecyn Sefydlu Adrannol ar y cyd i gael ei ddatblygu i'w ddarparu i gynorthwyo pob aelod o'r staff.	Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau	31/12/23

Risg i brofiad y cleifion	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod dulliau ffurfiol i roi adborth, fel Gweithio i Wella, yn cale eu harddangos yn amlwg yn yr adran.	<p>Caiff gwybodaeth am sut i godi pryderon ei harddangos, ac mae'r adran yn cydweithio'n agos â thîm profiad y claf.</p> <p>Mae taflenni a phosteri Gweithio i Wella wedi'u dosbarthu a'u harddangos yn yr adran</p> <p>“Bwrdd Dywedochn chi, Gwnaethom ni” i gael ei arddangos i bob aelod o'r staff er mwyn codi ymwybyddiaeth.</p> <p>Pob aelod o'r staff i gael mynediad i'r adnoddau dysgu o'r ffolder digwyddiadau.</p>	<p>Uwch-brif Nyrs</p> <p>Uwch-reolwr Nyrsio, Adran Achosion Brys /</p> <p>Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau</p> <p>Uwch-reolwr Nyrsio, Adran Achosion Brys /</p> <p>Arweinydd Clinigol yr Adran Achosion Brys</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>31/12/23</p>
Risg i brofiad y cleifion	Rhaid i'r bwrdd iechyd atgyfnerthu ei broses cwynion am amseroedd	Trefnu cyfarfod cwynion adrannol misol gyda'r tîm	Meddyg Ymgynghorol yr	30/11/23

	ymateb yn unol â'r amserlenni sefydledig.	<p>Gweithio i Wella er mwyn hyrwyddo ymatebion amserol i hyrwyddo prosesau cydweithio er mwyn bodloni targedau amser.</p> <p>Cyflwyno arweinwyr Risg a Llywodraethu newydd i gefnogi'r broses amserol o hwyluso ymatebion i bryderon.</p> <p>Cyfarfodydd adrannol misol i uwch-aelodau o staff er mwyn gwella cydymffurfiaeth ag ymatebion amserol.</p> <p>Trefnu hyfforddiant ar gyfer yr uwch-brif nyrsys i gael adroddiadau misol o system CIVICA. Caiff yr adroddiadau hyn eu rhannu â thîm ehangach yr Adran Achosion Brys.</p>	<p>Uned Achosion Brys/ Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau</p> <p>Uwch-brif nyrsys</p> <p>Uwch-brif nyrsys</p> <p>Uwch-brif nyrsys</p>	<p>31/11/23</p> <p>31/11/23</p> <p>31/12/23</p>
Risg i brofiad y cleifion	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cael gwybod am adborth cleifion er mwyn helpu i ddysgu.	<p>Gwybod sut rydym yn perfformio</p> <p>Diweddarau'r bwrdd bob mis a sicrhau bod y canlyniadau'n</p>	Uwch-brif Nyrs	30/12/23

	<p>weladwy ac yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd craff misol y Safonau Gofal Iechyd. Cwblhau cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella ar gyfer meysydd sy'n peri pryder, gan rannu arferion da.</p>		
	<p>Adolygu a monitro adborth cleifion yn barhaus drwy system CIVICA a'i arddangos ar y bwrdd Dywedochn chi, Gwnaethom ni.</p>	<p>Uwch-reolwr Nyrzio, yr Adran Achosion Brys</p>	<p>30/12/23</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): J Dyer

Swydd: Uwch-reolwr Nyrzio

Dyddiad: 18/10/23